# PERTHYN

Rhagfyr 2023/Ionawr 2024 Rhifyn 322



Darlun: 'Gobaith' gan yr artist o Balesteina, Sliman Mansour

Golomen wen, gwarchod ni. Yn ein nos
tyrd mewn hedd i'n porthi
ac yng nghalon drygioni
rho dy wên dynera di.

Annes Glynn

# Cyfarchion y Tymor

Mewn siop yn Aberystwyth, yng nghanol arlwy'r Nadolig mi sylwais ar degan bach yn llawn siocledi. Mae'r tegan yma ar ffurf car – car yn cario coeden a'r cyfan wedi ei orchuddio â llwch gwyn, yn symbol o eira ac o ddathliad. Mae'n costio pum punt ac yn dawel bach rwy'n gobeithio y bydd yn ffeindio'i ffordd i'm hosan i!

Rydw i wedi dotio ar y tegan yma ac yn rhyw deimlo ei fod yn cynrychioli'r hyn y mae'r Nadolig yn ei olygu i'r rhelyw ohonom. Dychwelyd adref i blith teulu a ffrindiau a phrofi'r cynhesrwydd yna sy'n gymorth i ddathlu, a datod ein hunain am ychydig ddyddiau oddi wrth realiti bywyd. Wrth i rywun fynd yn hŷn, mae Nadoligau'r gorffennol yn gallu ymddangos yn adegau arbennig a rhyw ramant yn perthyn iddynt. Efallai mai'r rheswm am hyn yw meddylfryd plentyn a hefyd bod bywyd yn symlach ac yn llai moethus. Dyna'r unig adeg y byddai poteli lemonêd yn ymddangos yn ein tŷ ni, a Mam yn gofalu bod yna un leim yn eu canol a hwnnw'n lliw gwyrdd llachar, anghynnes!

Gydag amser ac wrth i fywyd newid mae yna berygl i ni golli golwg ar y cyffro, ond i mi y mae'r flwyddyn yma'n wahanol! Rwy'n edrych ymlaen at ein dathliad teuluol ac mae arddangosfeydd y Nadolig mewn siopau wedi aildanio ysbryd fy mhlentyndod. Er mawr cywilydd i Alwen rwy'n ymddwyn fel plentyn mewn ambell siop a hynny wrth chwilio am rywbeth i'w brynu, gan syllu ar yr addurniadau lliwgar a llachar. Rydw i wedi profi un darn cacen ar ôl y llall, gyda'r esgus ei bod yn bwysig prynu'r gorau, a bellach rydw i'n arbenigwr ar fins peis!

Y rheswm am hyn yw'r bennod newydd yn ein hanes fel teulu ac rydan ni am i ddathliadau'r flwyddyn yma fod yn arbennig. Ar ddiwedd tymor coleg fe fydd Dafydd ac Anna yn dychwelyd o Lundain a Chaerdydd ac er bod pethau wedi newid, fe fyddwn gyda'n gilydd a hynny ar yr adeg yna o'r flwyddyn lle mae bod yn deulu yn bopeth.

Stori am deulu yw stori'r Nadolig cyntaf hefyd, gyda Mair a Joseff wedi eu bendithio â dechrau newydd, genedigaeth plentyn. Trwy gyfrwng manylion, mae awduron y pedair Efengyl yn darlunio'r enedigaeth mewn termau deublyg. Ar y naill law mae'n enedigaeth fel unrhyw enedigaeth arall, yn llawn llawenydd a threialon ac fe gawn

awgrym o hynny ar ddiwedd y stori. Fe ddywedir wrthym bod y prif gymeriadau wedi ffoi i'r Aifft, a hynny'n ein hatgoffa am deuluoedd â'u bywydau yn llawn dioddefaint. Ffoaduriaid heddiw, wedi eu hamddifadu o anghenion sylfaenol bywyd: lloches, addysg, cymuned wâr, ond yn fwy na dim, gobaith. Ac felly'r alwad am drugaredd a gwasanaeth. Ond ar y llaw arall, teulu gwahanol i unrhyw deulu dynol. Y mae Luc yn defnyddio'r geiriau yma:

> '...ond yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt.'

I mi mae'r darlun yna o Mair yn myfyrio ar yr enedigaeth yn awgrymu dealltwriaeth a gobaith o natur wahanol, genedigaeth Crist yr Emaniwel, Duw gyda ni ! Ac felly mewn byd toredig a rhanedig galwad i ddathlu a chyhoeddi hynny yw'r alwad i chi a fi. Nid i sôn am Dduw a'r hyn sy'n perthyn iddo ac yn deillio ohono yn nhermau marwolaeth ond yn hytrach, yn nhermau bywyd – bywyd newydd. Ac wrth i'r Iesu gael ei eni'n dragwyddol yn ein calonnau, gorfoleddwn yn y ddealltwriaeth o obaith, gobaith yn llawn cariad a maddeuant. A lle bynnag y mae gobaith yn amlwg, darganfyddwn ein heddiw a'n hyfory.

Bendithion y Nadolig i chi i gyd a mwynhewch gwmni'ch gilydd.

Eifion



# Newyddion Ebeneser

## Cofion . . .

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ein haelodau a'n cyfeillion yn Ebeneser gan ddymuno bendithion Gŵyl y Nadolig i bob un ohonoch.

## Llongyfarchiadau . . .

Llongyfarchiadau i Ann a Michael Skitt ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion atoch, ac at Michael sydd wedi derbyn llawdriniaeth.

## Gwasanaethau am 2.15pm . . .

Yn dilyn y patrwm a sefydlwyd, cynhelir Gwasanaeth Cymun ar bnawn Sul cyntaf y mis a gwasanaeth ar y trydydd Sul dan arweiniad ein Gweinidog.

3 Rhagfyr: Gwasanaeth Cymun
17 Rhagfyr: Gwasanaeth Nadolig

# Newyddion Morfa

***Anfonwn ein cofion at*** Greta Appleton yn yr ysbyty ac at Anne Edwards sydd wedi symud i Gartref Allt y Mynydd, Llanybydder. Anfonwn ein cofion hefyd at bawb sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi eu hunain ac mewn cartrefi gofal.

Cofiwn amdanoch i gyd yn ein gweddïau.

***Cydymdeimlo*** . . .

Trist yw cofnodi marwolaeth Mr Tom Davies, Cartref Cwmcynfelin, gynt o Fflatiau Rheidol. Cydymdeimlwn â'i ferch, Glenys, a'i fab, Eirian a'u teuluoedd.

Cydymdeimlwn â Mary Thomas ar farwolaeth ei mam, sef Mrs Glenys Evans, Pen-parc – mam-gu Caryl a Nia a hen fam-gu Betsan ac Alaw.

Cydymdeimlwn ag Andrew Evans a Sera Llewelyn ar farwolaeth tad Andrew, sef Mr Dyfrig Evans, Pontyberem – tad-cu Dafydd, Rhodri, Elen a Macsen.

---

## Cinio Bara a Chaws er budd Cymorth Cristnogol

cymorth cristnogol

- Cinio Bara a Chaws **mis Rhagfyr** yn Bethel, Stryd y Popty ddydd Llun, **4 Rhagfyr 2023 rhwng 12.00 a 1.30pm.**
- Cinio Bara a Chaws **mis Ionawr** yn Eglwys Dewi Sant, Stryd y Baddon ddydd Llun, **8 Ionawr 2024 rhwng 12.00 a 1.30pm.**

**Croeso cynnes i bawb – Dewch i gefnogi!**

# Anfon cerdyn Nadolig…

Eleni eto byddwn yn gwario punnoedd lawer ar anfon cardiau Nadolig, a mwy fyth ar stampiau!
Ein cwestiwn i bedwar o aelodau'r Morfa oedd:
Pe baech chi ond yn gallu anfon un cerdyn Nadolig eleni, at bwy y byddech yn ei anfon, a beth fyddai eich neges.



Nadolig Llawen i ti Greta Thunberg
Ar drothwy Nadolig arall, anfonaf gyfarchion cynnes atat i'th longyfarch am wrthdystio'n ddiflino i gadw'r byd yn ddiogel. Diolch i ti am herio gwleidyddion a gweithredwyr busnes pwerus ac am ymdrechu'n ddi-baid i annog ac i ysbrydoli pawb i fyw bywyd *gwyrdd* i achub y ddaear. Dyma neges amserol adeg dathlu geni Gwaredwr y Byd.

Cofion gorau,
Dilys



Nadolig Llawen i berchnogion yr Home Café
Dwi ddim yn siwr a ydych chi fel teulu yn dathlu'r Nadolig ai peidio. Ond drwy agor eich drysau i gynnig cinio i bobl dros y blynyddoedd diwethaf, rydych chi wedi dangos mwy o ysbryd yr Ŵyl na llawer ohonom.
Diolch.
Rocet

## Nadolig Llawen ichi Eluned Morgan AS,

Mae'n adeg bwyta danteithion a chnoi cil ar wir ystyr y Nadolig. Ond yn Aberystwyth, fel sawl tref arall, mae cyflwr dannedd y trigolion yn wael oherwydd bod diffyg deintyddion yn y dre.

Mae gennym Brifysgol arloesol yma sy'n awyddus i sefydlu Ysgol Ddeintyddol gyda'r gobaith o ddenu a chadw deintyddion yma wedi iddynt gymhwyso.
Tybed, pe bai pob un ohonom ni, gapelwyr, trigolion y dref a'n ffrindiau lu, yn gweithredu gan anfon llythyr atoch i roi gwybod ichi am ein hangen, a fyddech chi'n fodlon ystyried ariannu'r Ysgol Ddeintyddol – gan wella iechyd ac ansawdd bywyd pobl ein hardal?




Cyfarchion y tymor,
Mari Turner

## Nadolig Llawen i deulu Aneurin Bevan

Dewisais anfon cerdyn at deulu Aneurin Bevan gan obeithio y byddent yn gwerthfawrogi fy edmygedd ohono fel sefydlydd y Gwasanaeth Iechyd a'r Wladwriaeth Les, er gwaethaf rhai anawsterau a brofir heddiw. Tra'n ysgrifennu hwn mae torf sy'n protestio yn erbyn y rhyfel ym Mhalesteina yn ymgasglu ger cerflun iddo ynghanol Caerdydd. Tybiaf fod cysylltiad teuluol rhyngom, gan fod yr enwau Befan/Bevan yn ymddangos yn nheulu fy nhad ac roedd y ddau mor debyg o ran pryd a gwedd. Trueni nad oes modd diolch iddo'n bersonol am yr hyn a gyflawnodd er ein lles ni heddiw.

Huw Owen

# Tywysog Tangnefedd – tyred!

Mae rhyfel yn beth hyll ac annymunol ac mae'r digwyddiadau yn Israel a Gaza wedi ein hatgoffa ni o hynny eto. Rydym yn dda iawn am anghofio'r hyn sydd yn annymunol. Gwelsom o ddydd i ddydd sut y rhwygwyd Syria yn ddarnau gan ymladd a sut y trodd llefydd fel Aleppo yn ddim ond adfeilion a phobl y wlad ar ffo neu'n galaru. Yr ydym wedi bod yn dystion dyddiol yn syllu yn fud ar gartrefi, ysbytai a dinasoedd Wcráin yn cael eu dryllio gan yr ymladd diddiwedd sydd wedi gadael teuluoedd yn eu dagrau. Ond fe geisiwn anghofio'r cyfan, a phan fo penawdau'r newyddion yn ein tywys oddi wrth y dinistr yr ydym yn ddedwydd eto.

Mae rhyfel Israel a Hamas wedi ailagor y briw. Gweithredoedd didrugaredd Hamas yn ne Israel yn ein harswydo ac ymateb chwerw a didrugaredd Israel yn darnio Gaza yn ymddangosiadol ddifalio ynghylch pwy sy'n cael eu taro. A hithau'n dymor croesawu Tywysog Tangnefedd, oni ddylai trychineb y lladd ein gorfodi i ofyn tybed nad oes ffordd ragorach na hyn? Tybed nad yw'n amser i Gristnogion fynnu dweud wrth Lywodraeth San Steffan nad yw cefnogi lladd yn creu atebion? Diolch am wladwriaethau fel Qatar sydd wedi gweithio'n dawel i geisio creu rhyw fath o gytundeb rhwng y ddwy ochr ynghylch y gwystlon a chaniatáu i gymorth gyrraedd Gaza.

Nid oes angen doethineb mawr i sylweddoli nad yw ymladd yn rhoi atebion. Mae trais yn bodloni'r awydd am ddial, i ryw raddau. Ond mae trais yn magu trais yn ogystal. Os ydw i'n dial ar rywun, bydd teulu'r person hwnnw am ddial arnaf i. Nid yw codi arfau yn gwneud dim ond peri i rywun arall godi arfau; nid yw byddin wedi creu ateb gwleidyddol erioed, dim ond datgan mai myfi sydd gryfaf. Nid heddychwyr sydd yn mynnu hyn; dyma ffaith syml y mae arweinwyr byddinoedd wedi'i chydnabod erioed. Ond ateb gwleidyddol sydd ei angen yn Israel/Palesteina, nid un milwrol. Ond ateb milwrol sydd wedi ei roi yn gyson.

Yn 1947 fe ddewisodd Llywodraeth Prydain gau eu llygaid i'r ffordd yr oedd Palestiniaid yn cael eu trin gan ymladdwyr cryf Israel. Tybed nad oedd hynny oherwydd fod y gorllewin ar y pryd yn

adweithio i'w euogrwydd am ganiatáu i'r Holocost ddigwydd yn yr Almaen. Mae'r euogrwydd hwnnw yn parhau i hongian ar gydwybod llywodraethau'r gorllewin ac y mae eu cefnogaeth i Israel yn parhau hyd yn oed pan mae miloedd ar filoedd o Balestiniaid diniwed wedi eu lladd. Mae hynny am na allant weld dim ond ateb militaraidd, ac nid yw hwnnw yn ateb o fath yn y byd gan ei fod wedi ei sylfaenu ar ofn a grym, nid ar barch a chyd-ddealltwriaeth.

Yr ateb gwleidyddol delfrydol, yn ôl rhai, yw dwy wladwriaeth annibynnol, fel yr awgrymwyd yng nghytundeb Oslo yn 1993. Bryd hynny fe gytunodd y PLO a Llywodraeth Israel fod gan y ddwy genedl hawl i fyw ym Mhalesteina. Ond nid oes neb wedi datblygu na meithrin y syniad, ac y mae setlwyr Israelaidd wedi cymryd mwy a mwy o dir a ddylai fod ym meddiant Palestiniaid. Tra ar yr ochr arall y mae Hamas a Hezbollah, sef mudiadau sydd am weld diwedd ar Israel, hefyd wedi tyfu yn eu grym a'u poblogrwydd. Mae'r ateb dwy wladwriaeth ymhellach yn awr nag y bu.

Onid yw'r rhyfel hwn a'r argyfwng yn gofyn am i lywodraethau'r byd gefnogi ateb mwy radical? Mae gwledydd Cristnogol fel yr Unol Daleithiau yn gweld cefnogi Israel fel elfen hanfodol i brysuro ailddyfodiad Crist. Tra bod Israeliaid yn credu fod Duw wedi rhoi y wlad iddynt hwy ac iddynt hwy yn unig. Yr hyn a anghofir yw fod cyfrifoldeb yn dod gyda'r gred honno, cyfrifoldeb i ddangos cyfiawnder a thrugaredd Duw ei hun. Roedd y proffwydi yn gyson wedi rhybuddio'r genedl am eu cyfrifoldeb ac y byddai dinistr yn dod o wrthod eu gwaith. Yn y diwedd dinistriwyd Jerusalem a'r deml, ddwy waith, yn 586 CC ac yna yn 70 OC. Mae Eseciel ar ôl 586 CC yn gweld lle i'r Iddew gyd-fyw gyda'r 'estroniaid'. 'Rhannwch y wlad hon rhyngoch yn ôl llwythau Israel, a'i neilltuo'n etifeddiaeth i chwi ac i'r estroniaid sy'n byw yn eich mysg ac yn magu plant: byddant hwythau yn eich mysg fel rhai o frodorion Israel.'

Mae'n ddiddorol bellach fod academyddion Palestinaidd fel Ghada Karmi yn galw am ateb radical, sef UN wladwriaeth. Mae'r syniad o ddwy wladwriaeth yn cymryd yn ganiataol na all y ddwy genedl gyd-fyw, meddai, felly onid yr ateb rhesymegol a radical yw

galw am i'r ddwy genedl gael yr un hawliau, yr un bleidlais a'r un hawl i ddiogelwch a ffyniant. Prin prin y byddai Israel yn ystyried y fath ateb, ond bydd yn ddiddorol gweld a fydd gan wledydd sydd wedi bod mor barod i gefnogi y naill ochr a'r llall yn y gwrthdaro ddigon o fenter ac asgwrn cefn i gefnogi ateb gwleidyddol mentrus i sefyllfa mor drychinebus.

Ar hyn o bryd byddai cefnogaeth i gadoediad yn wyrth, ond o leiaf fe gafwyd cytundeb i saib ddyngarol yn yr ymladd, hyd yn oed os mai am gyfnod byr iawn y bydd hynny. Cawn weld a fydd Israel a Hamas yn glynu at y cytundeb, ac os caiff gwystlon Israelaidd a charcharorion Palesteinaidd eu rhyddhau, ond gobeithio hefyd mai dim ond cam cyntaf fydd y cytundeb hwn ac y gwelwn gamau pellach tuag at ateb hir-dymor. Gallwn weddïo am hynny, gan weithio'n ddiflino i sicrhau fod llywodraeth San Steffan yn gweld dwy ochr y rhyfel hwn ac yn ceisio atebion gwleidyddol yn hytrach na rhai militaraidd.

John Roberts

---

Wyf heddiw yn rhyfeddu, – wyf ar daith
Efo'r doethion i'r beudy,
Wyf y sant tyneraf sy'
Ond wyf Herod yfory.

Gerallt Lloyd Owen

---

Carolau yng ngolau Cannwyll
Darlleniadau a charolau
Pnawn Sul, 17 Rhagfyr am 2pm
Eglwys Dewi Sant, Stryd y Baddon
Casgliad tuag at Jubilee Storehouse, Aberystwyth



# Dyddiadau i'w cofio . . .




**Cymdeithas y Morfa**
Nos Lun, **4 Rhagfyr**, am 7.00 o'r gloch yn y Festri
Dathlu'r Nadolig – Carolau a Cherddi



Nos Lun, **8 Ionawr**, am 7.00 o'r gloch yn y Festri
Cwis gyda Nest Gwilym

Croeso cynnes i bawb.

## Y Gymdeithas – 6 Tachwedd 2023
## Ym mhob dim rhoddwn ddiolch



Cafwyd noson ddifyr tu hwnt yn dathlu'r diolchgarwch yng nghwmni y Parch. Peter Thomas. Roedd ganddo neges amserol wedi ei chyflwyno'n ddifyr ac yn gelfydd fel sy'n arferol gan Peter. Os oedd unrhyw un o'r gynulleidfa niferus yn meddwl cael rhyw napsan fach yn y cefn, fe gawson nhw ail, achos fe ddaeth o â dau utgorn gydag o, a dangos ei ddoniau yn eu canu nhw. Un o'r cyrn hynny oedd y vuvuzela y bydd rhai yn eu cofio yn dod i

amlygrwydd yng Nghwpan y Byd 2010. Ystyr Vuvuzela ydy 'sain mawr i foli'. Clymodd hynny gyda Sela – y gair a welir yn aml rhwng adrannau o’r Salmau. Y mae’n orchymyn i oedi a myfyrio. Dysgodd ni mai nid elfen i fychanu ydy'r 'di' ar ddechrau 'diolch' ond i'r gwrthwyneb ei fod o'n elfen sy'n cryfhau. ‘Golwch' – clod. ‘Di-olwch’– clod mawr. 'Ym mhob dim rhoddwn ddiolch.' Cymerwn amser i fyfyrio a rhoi clod mawr, a gwneud sŵn mawr wrth wneud, gwneud vuvuzela!


Cafwyd gwledd i ddilyn a digon o amser i gymdeithasu. ’Fentrodd neb arall drio cael nodyn o'r cyrn; mae'n rhaid bod pawb yn rhy llawn. Diolch yn fawr iawn i Hefina a Jean am drefnu mor effeithiol ac i bawb fu'n eu helpu nhw. A diolch yn arbennig i Peter a'i gyrn!

---

Cyngerdd Nadolig
Aelwyd Pantycelyn
Nos Fawrth, 5 Rhagfyr am 7.00pm
Capel y Morfa
Mynediad: £10 / Aelodau UMCA £5
Elw tuag at UMCA a Phapur Bro *Yr Angor*

Naw llith a charolau – Côr ABC
10 Rhagfyr 2023 am 7.30pm
Eglwys Padarn Sant, Llanbadarn Fawr
Mynediad am ddim.
Casgliad ar gyfer meddwl.org
Pwnsh poeth a mins pei

## Brawd i Bawb



Mae’r flwyddyn hir am ddweud ffarwél,
mae bron â dod i ben,
mae’r haul yn oedi fymryn bach
yn hirach yn y nen.

Mae mwy o olau yn y tir
ac rwyf yn gwybod pam,
am fod ’na frawd bach newydd sbon
yn gorwedd ar lin mam.



Nid brawd i fi yn unig yw,
ond brawd i bawb drwy’r byd
y baban bach a ddaeth i fod
yn frawd mawr i ni i gyd.

Bob dydd, mae’r brawd arbennig hwn
yn dweud, beth bynnag ddaw,
ei fod, fel ffrind i ti a fi,
yn fodlon dal ein llaw.

Ac felly, brysiwn bawb yn awr
cyn iddi fynd yn hwyr,
mae’n amser dathlu pen-blwydd brawd
a’n câr ni oll yn llwyr.

Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones
allan o *Beibl Odl y Plant*

---

British Red Cross | Y Groes Goch Brydeinig

Cyfanswm ein casgliad at Apêl y Groes Goch at waith dyngarol yn ardal Gaza oedd **£463.10**.
Diolch i bawb am eu cyfraniadau.

# CROESAIR NADOLIG PERTHYN

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | | | 3 | ■ | 4 | | | 5 | |
| ■ | | ■ | ■ | | ■ | | ■ | ■ | | ■ |
| 6 | | | ■ | | ■ | | ■ | 7 | | |
| ■ | | ■ | 8 | | | | 9 | ■ | | ■ |
| 10 | | | | | ■ | 11 | | | | |
| ■ | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ |
| 12 | 13 | | | 14 | ■ | 15 | | | 16 | |
| ■ | | ■ | 17 | | | | | ■ | | ■ |
| 18 | | | ■ | | ■ | | ■ | 19 | | |
| ■ | | ■ | ■ | | ■ | | ■ | ■ | | ■ |
| 20 | | | | | ■ | 21 | | | | |

Ar Draws

1. Gorchudd i'ch cerdyn Nadolig (5)
4. Chwi holl breswylwyr _ _ _ _ _ lawn (5)
6. Cist y Cyfamod (3)
7. Nid marw yw wedi dechrau bod (3)
8. O Shan, ti'n llawn anrhegion (5)
10. Llong yr anialwch (5)
11. Yr haul uwch Bethlehem? (5)
12. Pan weloch gwmwl yn codi o'r gorllewin, yn y fan dywedwch, y mae _ _ _ _ _ yn dyfod - Luc 12 (5)
15. Bychod danas (5)
17. O air da tystion ceir ffrwythau (5)
18. Mae'r rhodd hwn yn un o anrhegion gorau'r Ŵyl (3)
19. Meddai Beiblaidd (3)
20. Gobeithio y cewch o leiaf un o'r rhain y Nadolig hwn (5)
21. Bu merch Heriodas yn perfformio hyn mewn parti – Mathew 14 (5)

I LAWR

2. Addoldy'r gwastatir arfordirol (5)
3. _ _ _ _ _ Dad, mae eto'n nosi (5)
4. Damascus neu Raffana e.e. (5)
5. Y lle i ddarllen Ap Beibl (2,1,2)
8. Sialens ryfedd brenin (5)
9. Cenadwri mewn Saesneg estron (5)
13. Un ardd sy'n cynhyrchu tinsel (5)
14. Stori ar gyfer dysgu gwers foesol (5)
15. Adferiad heddwch rhwng dwy ochr (5)
16. I'n bro ryfedd daw aderyn (5)

Anfonwch eich atebion, gan gofio cynnwys eich enw a'ch cyfeiriad, at menaillwyd@googlemail.com erbyn **8 Ionawr 2024.**
Rhoddir yr atebion cywir i gyd mewn het a bydd tocyn llyfr gwerth £5 i'r tri chyntaf a dynnir o'r het.

# Coffâd

## LLINOS MARY HUGHES

Ganwyd Llinos Mary Hughes ar 14 Tachwedd 1931, yn ferch i Blodwen Mary a Jenkin David Hughes, Ffordd Rheidol, Penparcau. Ac eithrio'i phedair blynedd olaf, treuliodd ei hoes gyfan yn byw yn Ffordd Rheidol, gan ddod i nabod y pentref a'i drigolion yn dda dros ben. Cylch ei bro oedd hyd a lled ei byd, a hyd ddiwedd ei hoes byddai'n hoffi sôn am garedigrwydd ei chymdogion agos. Iddi hi, roedd cymdogaeth dda yn bwysig iawn. Cymraeg oedd iaith yr aelwyd a chwaraeai'r teulu ran amlwg yng ngweithgareddau'r capel, gan gynnwys dramâu, eisteddfodau a chymanfaoedd canu. 'Siaradwch Gymraeg', meddai Blodwen, mam Llinos, wrth bawb o fewn clyw.

Cafodd Llinos ei haddysg gynnar yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth yn Llanbadarn, cyn mynd yn ei blaen i Ysgol Ramadeg Ardwyn lle'r oedd yr iaith Saesneg yn teyrnasu. Roedd yn ddisgybl galluog a diwyd. Yna, chwalwyd ei gobeithion gan ddau beth. Yn gyntaf, bu farw dwy o'i chwiorydd o fewn tri mis ar ddeg i'w gilydd – Dilys Elizabeth, yn chwech oed a Ruth Gwendolyn, yn bymtheg mis oed, y naill o lid yr ymennydd a'r llall o hollt asgwrn cefn (*spina bifida*), gan ei gadael ag un chwaer yn unig, sef Rhiannon Margaret. Yr ail ergyd dost oedd penderfyniad ei thad i'w thynnu o'r ysgol pan oedd yn bymtheg oed, gweithred a achosodd gryn strancio ar yr aelwyd. Ond gan fod ei rhieni'n teimlo pwys a gwres y dydd wrth gynnal y bacws a ddarparai fara a chacennau blasus ar gyfer cwsmeriaid o bell ac agos, roedd angen ei help gartref.

O hynny ymlaen, i bob pwrpas caethiwyd Llinos i'w chartref yn Ffordd Rheidol, Penparcau, lle bu raid iddi, yn eu tro, ofalu am ei thad-cu a'i mamgu, ei thad a'i mam, ac Yncl Dic, brawd ei mam. Doedd dim ofn caledwaith arni. Dros gyfnod o saithdeg mlynedd treuliai ei dyddiau yn paratoi prydau bwyd, yn glanhau, yn golchi pob dilledyn â llaw ac yn garddio. Roedd glendid a thaclusrwydd yn bwysig iddi a rhoddai o'i gorau bob amser wrth gynnal ei theulu, yn enwedig ei chwaer Rhiannon a fu'n dioddef o glefyd y siwgr er pan oedd yn bymtheg oed. Gofalai Llinos fod Rhiannon yn bwyta'n iach ac yn cael ei

phrydau a phob chwistrelliad yn brydlon. Bu Rhiannon byw i fod yn 79 mlwydd oed ac i Llinos y mae'r diolch am hynny. Y Parch J. E. Wynne Davies oedd y cyntaf i gyfeirio at y ddwy chwaer fel Mair a Martha, y ddau gymeriad yn y Testament Newydd. Rhiannon oedd Mair, yr un a aeth i wrando ar Iesu, a Llinos oedd Martha a adawyd i baratoi pryd o fwyd ar ei gyfer.

Ar ôl marwolaeth ei rhieni, daeth cyfle i Llinos ymlacio mwy ac i fwynhau bywyd. Diolch i letygarwch ei chyfaill Marian, treuliai'r ddwy chwaer benwythnosau hir ym mhentref Pontsbury yn sir Amwythig, lle cyfleus iawn ar gyfer taith i dref Amwythig i siopa am ddillad ac esgidiau. Fe ddywedir bod gan Llinos lan lofft fwy o esgidiau na hyd yn oed Imelda Marcos! Eto i gyd, merched y filltir sgwâr oedd y ddwy chwaer ac roedd yn well ganddynt ofalu am ei gilydd gartref neu fynychu cyfarfodydd Merched y Wawr yn Llanfarian na hwylio neu hedfan i wledydd pell. Fel mae'n digwydd, cafodd Llinos a Rhiannon ddigon o gyfle i gwrdd â myfyrwyr tramor yn Llyfrgell Hugh Owen ym Mhrifysgol Aberystwyth. Er mai ysgrifenyddes i'r Llyfrgellydd oedd Rhiannon, fe wyddai pawb mai hi oedd y Llyfrgellydd mewn gwirionedd! Ac ymunodd Llinos â hi fel cynorthwyydd llyfrgell gyda'r nos, gan lwyddo i wneud llawer iawn o ffrindiau ymhlith y staff a'r myfyrwyr. Ei hunig gŵyn oedd bod myfyrwyr o Tsieina yn gyndyn i ddweud 'Os gwelwch yn dda' a 'Diolch yn fawr' wrth gasglu a dychwelyd eu llyfrau.

Er ei bod yn fychan o gorff, roedd Llinos yn ddigon cydnerth ac yn barod bob amser i ddweud ei barn heb flewyn ar dafod. Dywedodd ei meddyg, Dr Moon, fod ei chalon mor sownd fel y gallai ddisgwyl byw i fod yn gant oed! Bu'n ddigon ffodus i fwynhau iechyd ardderchog gydol ei hoes. Pan gâi ben tost, byddai'n yfed gwydraid o ddŵr glân gloyw cyn llyncu dwy bilsen o *Panadol Advanced* cyn clwydo. Diolch i'w magwraeth, roedd ffydd Llinos yn Nuw ac yn Iesu Grist yn ddiwyro hyd y diwedd ac roedd lle cynnes iawn yn ei chalon i'r hen gapel bach hwn. Addolai ei thad-cu, Thomas Herbert Phillips, codwr canu capel Ebeneser a Chôr y Castell yn Aberystwyth. Roedd gan Llinos lais canu swynol iawn ac fe ddysgodd lawer o emynau a chaneuon wrth draed

‘Dat’, fel y’i galwai. Talodd Tom Phillips, yntau, deyrnged fach iddi trwy gyfansoddi emyn-dôn o’r enw ‘Llinos’ yn arbennig ar ei chyfer.
Bu Llinos farw, yn 91 oed, ar 16 Hydref yng Nghartref Henoed Pennal View ym Mlaenpennal lle y cafodd bob gofal gan y staff dros gyfnod o bedair blynedd. Yn ystod y cyfnod wedi colli Rhiannon, derbyniodd Llinos hefyd bob cefnogaeth a chymorth gan blant ei hanner chwaer Lilian, sef Enfys a Howard, fi ac Ann, Gwyn a Fal, a Dilys, yn ogystal â’u teuluoedd. Chwith meddwl fod un arall o hen gymeriadau Penparcau wedi ein gadael. Coffa da amdani.

Geraint H Jenkins

*Cynhaliwyd yr angladd yn Ebeneser, Penparcau ar 6 Tachwedd gyda’r Parchedigion Eifion Roberts, J. E. Wynne Davies ac Ifan Mason Davies yn gwasanaethu.*

## MEGAN MORRIS

Brodor o Lanfrothen oedd Megan, dafliad carreg o bentref Penrhyndeudraeth. Bu’r ardal yna’n agos at ei chalon trwy gydol ei bywyd a hoffai siarad am ddyddiau plentyndod a’r fagwraeth draddodiadol fu’n gymaint o ddylanwad arni. Profodd aelwyd gariadus a gofalus ynghyd â chymuned arbennig gyda chapel ac ysgol yn galon y cyfan. Yn dilyn cyfnod ym Minffordd aeth i ysgol y Bermo ac oddi yno i hyfforddi fel nyrs gan gwblhau blynyddoedd o wasanaeth yma yn Aberystwyth. Roedd yn boblogaidd ymysg y cleifion a hefyd y staff ac fel ‘Sister’ bu’n gyfrifol am genedlaethau o weinyddesau ifanc ar ddechrau eu gyrfa. Ymhen amser priododd a bendithiwyd y briodas honno gyda dau fab, Eryl a David, meibion fu’n ofalus o’u mam trwy gydol ei bywyd. Llawenydd mawr i Megan oedd llwyddiannau’r ddau ac roedd cael bod yn nain yn goron ar y cyfan. Byddai’n wastad yn siarad amdanynt ac yn dangos ambell lun gyda balchder a llawenydd. Er eu bod yn byw i ffwrdd, roedd y daith i Aberystwyth yn un rheolaidd ac yn gyfrwng gofal a chariad. Wedi blynyddoedd o fyw ym

Mhenparcau, symudodd Megan i Maes y Môr, Trefechan, symudiad fu'n gymorth mawr iddi oherwydd y dirywiad yn ei hiechyd. Bu ei bywyd yn y fflat newydd yn fendith a hithau'n mwynhau cwmni a sgwrs gyda chymdogion newydd. Roedd ei chartref fel pin mewn papur ac yn adlewyrchiad o'i natur a'i galwedigaeth, ac roedd ei chroeso bob amser yn gynnes. Yn un o selogion Ebeneser tra medrai ac yn wythnosol yn troi trwyn yr hen 'Fiesta' tuag at y capel bach hwnnw, talwn deyrnged i'w ffyddlondeb a chynhesrwydd ei chymeriad.

Cydymdeimlwn ag Eryl a David a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Gan iddi dreulio cynifer o flynyddoedd fel nyrs, arweiniwyd y gwasanaeth yn Amlosgfa Aberystwyth ar 3 Hydref gan Gaplan Ysbyty Bronglais.

## THOMAS HAMINIOG DAVIES

'Gŵr bonheddig', 'cymeriad hoffus', 'personoliaeth gynnes', a sawl sylw tebyg a glywwyd yn ystod yr wythnosau diwethaf, yn dilyn marwolaeth Thomas Haminiog Davies. Ganwyd Tom yng Ngwarfelin, Cwm Mabws, Llanrhystud yn un o bedwar o blant i'r diweddar John James a Hannah Mary. Er parchus goffadwraieth i'w ewythr, bardd ac aelod o'r Orsedd, fe ddefnyddiwyd yr enw 'Haminiog' fel ail enw, hen enw ar un o blwyfi Llanrhystud. Wedi ennill ysgoloriaeth i Ardwyn, bu Tom yno hyd farwolaeth ei rieni, a hynny o fewn chwe wythnos i'w gilydd. Fe drodd eu bywyd teuluol ben i waered gyda Diana a Tom yn dychwelyd gartref ac yn hynny o beth fe gollodd gyfle.

Dychwelodd i Ysgol Llanrhystud ond yn bedair ar ddeg oed dechreuodd weithio i Mr a Mrs George, y Black Lion ac ymhen amser, fferm Tŷ Hen. Daeth y teuluoedd hynny'n gyfeillion iddo ynghyd â phobl ifanc yr ardal ac yng nghwmni ffrind agos, Cyril, cyfarfu'r ddau ddwy ferch, Grace a Eunice a bu carwriaeth. Arweiniodd y garwriaeth

yna at briodas a bu'r pedwar yn gyfeillion trwy gydol eu hoes. Symudwyd i Gastellnewydd Emlyn ac ardal y Dryslwyn ond oherwydd ei fod yn dioddef o 'Farmer's Lung' bu'n rhaid i Tom adael y byd amaethyddol a dechrau gweithio gydag adeiladwr lleol. Dychwelwyd i Aberaeron ac ac yna symud i Aberystwyth ac am bum mlynedd ar hugain bu'n gweithio gyda'r Cyngor Sir fel plastrwr. Bendithiwyd y briodas â merch a mab a bu bywyd a llwyddiannau Glenys ac Eirian a'u teuluoedd yn destyn llawenydd i Tom ac Eunice trwy gydol eu bywyd. Roedd teulu'n bopeth i'r ddau a chynhesrwydd a chroeso y cartref yn golygu cymaint i'r genhedlaeth newydd.

Ar ôl ymddeol, nid un i segura oedd Tom. Ymunodd y ddau â nifer o wahanol grwpiau yn Aberystwyth; cawsant gyfle i fwynhau gwyliau yn y wlad yma a thramor a gwneud ffrindiau oes ar y teithiau hynny. Yn 86 oed dysgodd sut i grosio a bu wrthi'n ddyfal yn cynhyrchu cannoedd o blancedi gan eu dobarthu i deulu ac elusennau, a byddai wrth ei fodd yn arlunio gyda sylw arbennig i adar ac anifeiliaid. A hithau'n ddyddiau olaf 2022 penderfynodd Tom bod angen gofal arno ac felly trodd ei olygon tuag at y 'Coach House', Plas Cwmcynfelin lle y cafodd ofal a chariad arbennig gan drigolion a staff y cartref hwnnw. Yng ngeiriau Glenys ei ferch:

> 'Nid oedd yn gyfoethog ym mhethau'r byd ond roedd yn cyfrif ei hunan yn gyfoethog mewn teulu a ffrindiau a bendithion'.

Gŵr annwyl a braint oedd cael ei adnabod.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Glenys ac Eirian a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

Bu'r angladd yng Nghapel y Morfa ac yn dilyn yn Amlosgfa Aberystwyth ar 18 Tachwedd gyda'r Parch. Eifion Roberts yn gwasanaethu.

# Y Clwb Sul (Ysgol Sul)

Ein thema ar gyfer hanner cyntaf y tymor yn arwain at y Gwasanaeth Diolchgarwch oedd Dŵr. Ein thema ar gyfer y cyfnod hyd at y Nadolig yw Goleuni gan ddewis hanesion o'r Beibl sy'n cyfeirio at y Goleuni Dwyfol – Hanes Creu'r Dydd a Nos a'r Goleuni, Moses yn cael ei alw gan Dduw trwy gyfrwng y Berth yn Llosgi a hanes tröedigaeth Paul ar ei ffordd i Damascus. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau crefft a gwyddonol yn defnyddio fflachlamp a chanhwyllau batris, ac roedd rhyfeddod ar wynebau'r plant!

Mae'r thema gyfoethog yn ein harwain at Oleuni'r Nadolig a'i neges i'r byd heddiw.

---

## Trefniadau'r Clwb Sul (Ysgol Sul) ym mis Rhagfyr

**Dathlu'r Nadolig 2023**
**3 Rhagfyr am 10 o'r gloch** – Sul cyntaf Yr Adfent
Llanllanast Cristingl a'r Nadolig, yn dilyn y Gwasanaeth arweiniol yn y capel

**17 Rhagfyr am 10 o'r gloch** – Gwasanaeth Teulu Nadolig o dan ofal y Clwb Sul
Thema: Rhannu'r Goleuni
Parti Nadolig a Siôn Corn yn y Festri yn dilyn y Gwasanaeth

**24 Rhagfyr am 10 o'r gloch** – Gwasanaeth Nadolig o dan ofal yr aelodau. Darlleniadau a charolau

**25 Rhagfyr am 10.30** – Gwasanaeth teulu bore Nadolig (gwahoddir y plant i ddangos eu hanrhegion fel arfer)

Dyma rai aelodau'r Clwb Sul a'u gweithgaredd ar y thema Goleuni . . .



Duw greodd yr haul,
y lleuad a'r sêr



Yn y dechreuad,
creodd Duw oleuni








Siaradodd Duw â Moses o lwyn nad oedd yn llosgi

🔥





# Cylch Gweddi a Choffi bore dydd Mawrth

Erbyn hyn mae'r Cylch Gweddi a Choffi wedi dychwelyd i'r festri i fwynhau paned a sgwrs am 10.30 a defosiwn neu fyfyrdod am 11 o'r gloch sydd hefyd ar Zoom. Yn ystod y tymor cafwyd adroddiad am Encil y Chwiorydd yng Nghaerfyrddin a chlywed tystiolaeth arweinydd y diwrnod, sef Isaias Grandis. Cafwyd myfyrdodau ar themâu'r hydref, Diolchgarwch a Heddwch. Roeddent yn cynnwys darlleniadau, gweddïau, emynau, ambell lun ac amser tawel i wrando ar gerddoriaeth. Diolch i Eifion am baratoi'n helaeth ar ein cyfer. Hefyd cawsom gyfle i rannu ein hoff emyn, gerdd neu farddoniaeth, ac roedd y profiadau a rannwyd yn sgil hynny yn werthfawr iawn i bob un ohonom.

Gwahoddwyd siaradwyr i ymuno â ni o bell ac roedd y cyfarfodydd hynny ar Zoom am 11 o'r gloch. Cafwyd un sesiwn o dan arweiniad Jonathan Kirk sy'n arwain Gweinidogaeth Arloesol Amgylcheddol yn Sir Benfro ac un arall gan Nia Williams, Pwllheli, sy'n Swyddog Adnoddau gyda'r Eglwys Bresbyteraidd. Mae hi wedi arwain ym maes plant a ieuenctid ers nifer o flynyddoedd gan ymweld ag ysgolion y gogledd gyda chynlluniau arbennig megis Agor y Llyfr a gwahodd disgyblion i Goleg y Bala i fod yn rhan o Brofiad y Nadolig a Phrofiad y Pasg.



COFIWCH ymweld â gwefan Capel y Morfa i gael y newyddion diweddaraf – ac mae croeso i chi gyfrannu!
[www.capelymorfa.cymru](http://www.capelymorfa.cymru)

COFIWCH hefyd ddilyn cyfrif X/Trydar Capel y Morfa @capelymorfa, a chyfrif Facebook

# Astudiaeth Ffydd a Phaned – ar ddyddiau Gwener am 2 o'r gloch ar Zoom

Yn ystod y tymor buom yn dilyn y gyfres Cymeriadau'r Testament Newydd o dan arweiniad y Parchedig Denzil John, a oedd trwy gyfrwng ffilm fideo yn cyflwyno'r cymeriad ac yna'n cyflwyno darlleniad, myfyrdod, gweddi ynghyd â thestunau trafod. Roedd Eifion yn ychwanegu at y cyflwyniad gyda ffilm, cerddoriaeth neu emyn.

Rhai o'r cymeriadau a ddewiswyd oedd Nicodemus, Thomas a Steffan. Byddwn yn dilyn pedair uned o gyfres debyg ar thema'r Nadolig yn ystod cyfnod yr Adfent.

Mae croeso i unrhyw un ymuno o'r newydd gyda'r grwpiau hyn. Mae'r wybodaeth gan Eifion.

---

Tyrd i weled a chredu – yn y gwellt
Gwêl y Gair yn cysgu,
Ac yna cyhoedda'n hy
Werth y byd wyrth y beudy.

John Gwilym Jones

Golygyddion y rhifyn hwn yw Gwerfyl Pierce Jones a Menai Lloyd Williams. Diolch hefyd i bawb sydd wedi anfon cyfraniadau i'r rhifyn hwn, yn lluniau ac adroddiadau.

Anfonwch eich cyfraniadau ar gyfer rhifyn Chwefror at Gwerfyl (gwerfylpj@google.com neu Menai (menaillwyd@googlemail.com) erbyn **dydd Gwener, 19 Ionawr 2024**, yn ddi-ffael, os gwelwch yn dda.

**Duw yn y Byd**



Duw, y dieithryn,
    helpa ni i’th groesawu
    i’n gwlad, i’n bro, i’n cartref, i’n heglwys.
Dduw, yr anhysbys,
    helpa ni i’th adnabod
    ym mywydau ein cyd-ddynion
    y cyffyrddwn â hwy bob dydd.
Dduw, y diymadferth,
    helpa ni i’th weld
    yn y plentyn bach ym mreichiau’i fam.
Dduw, hollbresennol,
    helpa ni i’th ganfod ynghanol dy fyd –
    mewn cariad, mewn cyd-ddyn, mewn celfyddyd –
    ac o’th ganfod, dy garu a’th wasanaethu.
Dduw, ymgnawdoledig,
    o’th adnabod yn dy Fab Iesu Grist,
    helpa ni i’th ganfod a’th adnabod
    ym mhob man.
Amen


(A Restless Hope, Llawlyfr Gweddi CWM, 1995 allan o *Amser i Dduw*, Gol. Elfed ap Nefydd Roberts)

---

Bydded i chi ffydd y bugeiliaid
Gobaith y doethion
Cariad Mair
A llawenydd yr angylion
I chi i gyd yn 2024.



## Blodau Mis Rhagfyr



**3 Rhagfyr**: Jean Davies a Siân Donnelly
**10 Rhagfyr**: Beryl Roberts
**17 Rhagfyr**: Trefniant Nadolig gan yr Ysgol Sul
**24 Rhagfyr**: Trefniant Nadolig gan yr Ysgol Sul

*Diolch i bawb sydd wedi rhoi eu henwau ar y rhestr neu gyfrannu at elusen yn 2023.*

## SULIAU RHAGFYR 2023

**Blaenor y Mis:** Eleri Davies

**3 Rhagfyr:** Eifion Roberts (Oedfa Gymun)a Llanllanast
**10 Rhagfyr:** John Tudno Williams
**17 Rhagfyr:** Gwasanaeth Nadolig y plant a'r ieuenctid
**24 Rhagfyr:** Gwasanaeth Nadolig o dan ofal yr aelodau (darlleniadau a charolau)

Mae'r holl oedfaon uchod am 10.00 o'r gloch ac mae croeso cynnes i unrhyw un ymuno.

## Blodau Ionawr 2024



**7 Ionawr**: Cyfraniad at elusen
**14 Ionawr**: Eleri Davies
**21 Ionawr**: Ann Hill a Wendy Jones
**28 Ionawr**: Rhidian a Catherine Griffiths

*Diolch i bawb sydd wedi rhoi eu henwau ar restr neu gyfrannu at elusen ar gyfer 2024.*

## SULIAU IONAWR 2024

**Blaenor y Mis:** Dr Rhidian Griffiths

**7 Ionawr:** Eifion Roberts (oedfa Gymun)
**14 Ionawr:** John Roberts
**21 Ionawr:** Eifion Roberts
**28 Ionawr:** Rhidian Griffiths

Mae'r holl oedfaon uchod am 10.00 o'r gloch, ac os hoffech dderbyn y ddolen i ymuno ag unrhyw un ohonynt ar Zoom, cysylltwch ag Eifion ar eifionroberts095@btinternet.com